Ysgol Tryfan

23/10/15

Annwyl Rieni,

Noson Agored Ysgol Tryfan 2015
ar gyfer disgyblion blwyddyn 5 a 6

Nos Iau, 12/11/15 – 17:30 tan 20:00 y.h.

Ysgrifennaf i'ch gwahodd i **NOSON AGORED** yr ydym wedi ei threfnu ar gyfer nos Iau, Tachwedd 12fed, 2015. Yr ydym yn awyddus i chi gael gwybod mwy am Ysgol Tryfan a'i darpariaeth a rhoi cyfle i chi a'ch plant i weld yr ysgol.

Dechreuir y noson gyda sgwrs fer gan y Pennaeth yn neuadd yr ysgol, ond o ganlyniad i niferoedd mawr mewn blynyddoedd a fu ac anallu rhai pobl i gyrraedd erbyn 17:30 bydd ail gyflwyniad gan y Pennaeth am 18:30 hefyd. Gobeithiaf y rhydd hyn fwy o hyblygrwydd a rhyddid i chi fel rhieni.

Yn ystod y noson bydd cyfle i chi fynd o gwmpas yr ysgol i gyfarfod nifer o'r athrawon yn eu hystafelloedd dysgu a chael sgwrs â hwy am y gwaith a wnawn yn Ysgol Tryfan. Bydd paned ar gael yn y Ffreutur hefyd a chyfle yno i gael sgwrs ag aelodau tîm rheoli'r ysgol.

Bydd pob disgybl blwyddyn 6 yn derbyn copi o Lawlyfr yr Ysgol gyda'r llythyr hwn. Bydd copi ar gael i rieni disgyblion Blwyddyn 5 ar y noson os ydych yn dymuno cael un, neu gallwch ei lawrlwytho oddi ar wefan yr ysgol - www.ysgoltryfan.org. Bydd cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau sydd yn codi wrth ddarllen y Llawlyfr ar y noson.

Edrychaf ymlaen at eich croesawu i'r ysgol.

Yn gywir

Gwyn Tudur
Pennaeth

23/10/15

Dear Parents,

Ysgol Tryfan's 2015 Open Evening
for parents of pupils in Year 5 and 6

Thursday, 12/11/15 – 17:30 to 20:00 p.m.

I write to invite you to an **OPEN EVENING** that we have arranged for Thursday, November 12th, 2015. We are keen to show you what Ysgol Tryfan has to offer and to show you and your child around the school.

We will start the evening with a short presentation in the school hall by the Headteacher. As a result of large numbers in previous open evenings, and the inability of some parents to arrive by 17:30, the same presentaion will be available also at 18:30. This will hopefully allow more freedom and flexibility.

During the evening you will be free to see the school and to meet our teachers in their rooms and hear about the sort of work that is done in Ysgol Tryfan. Light refreshments will be available in the school canteen and the school's SMT will also be there to answer any questions.

Each year 6 pupil will receive a copy of our School Handbook with this letter. During the evening, a copy will be available to Year 5 parents who require one. A copy can also be downloaded from our school website - www.ysgoltryfan.org There will be plenty of opportunities for you to ask any questions that you may have during the Open Evening.

I look forward to welcoming you to Ysgol Tryfan.

Yours truly

Gwyn Tudur
Headteacher

Ysgol Tryfan
Lôn Powys, Bangor, Gwynedd. LL57 2TU
☎01248 352 633 🖷 01248 361 264
swyddfa@tryfan.gwynedd.sch.uk www.ysgoltryfan.org

Pennaeth/Headteacher: Gwyn Tudur